WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Darlun Cymharol o Wasanaethau Orthopedeg

# **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

**Dyddiad:** Mehefin 2015

**Cyfeirnod:** 716A2014

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi ar sail gwaith gafodd ei wneud dan y Government of Wales Act 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Anne Beegan, Sian Davies, Andrew Doughton, Kate Febry, Delyth Lewis a Stephen Lisle o dan gyfarwyddyd David Thomas.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waitih gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffoniwch 029 2032 0500, e-bostiwch: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teil y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad cryno | 4 |
| 1 | Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | 13 |
| | Darpariaeth gofal sylfaenol | 13 |
| | Atgyfeiriadau gan feddygon teulu | 16 |
| | Gwasanaethau asesu a thrin cyhyrysgerbydol cymunedol | 18 |
| 2 | Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | 21 |
| | Gwasanaethau i gleifion allanol | 21 |
| | Gwasanaethau ffisiotherapi | 25 |
| | Gwasanaethau radioleg | 27 |
| 3 | Gwasanaethau i gleifion preswyl | 29 |
| | Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty | 29 |
| | Derbyniadau | 33 |
| | Aros yn yr ysbyty | 34 |
| | Rhyddhau cleifion | 35 |
| 4 | Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | 39 |
| | Trefniadau dilynol | 39 |
| | Canlyniadau a phrofiad cleifion | 40 |
| | Atodiadau | |
| | Atodiad 1 – Ffynonellau data | 44 |

# Adroddiad cryno

1 Yn 2013, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad gorfodol lleol o wasanaethau orthopedeg ledled Cymru. Nod yr adolygiad oedd ateb y cwestiwn canlynol: ‘A yw gwasanaethau orthopedeg yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus ac a ydynt yn cael eu cynllunio a’u darparu mewn ffordd gynaliadwy?’ Mae canfyddiadau’r gwaith hwnnw wedi’u cyflwyno mewn adroddiad cenedlaethol, **Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg yng Nghymru**.

2 Fel rhan o’r fethodoleg a oedd yn sylfaen i’r adolygiad, aethom ati i gasglu amrywiaeth o ddata er mwyn deall perfformiad gwasanaethau orthopedeg presennol ym mhob bwrdd iechyd. Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno ein harolwg o wasanaethau orthopedeg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd), ac yn nodi sut mae’r gwasanaeth yn cymharu â gweddill Cymru.

3 Rydym wedi seilio ein harolwg ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau orthopedeg drwy ddefnyddio llwybr y claf. Rydym wedi casglu’r data o ffynonellau amrywiol (gweler Atodiad 1), a’r data a ddefnyddir yw’r data mwyaf a oedd ar gael adeg cyflwyno’r adroddiad. Mae canfyddiadau’r dadansoddiad o’r data wedi’u cyflwyno ym mhrif ran yr adroddiad hwn, ond mae’r negeseuon lefel uchel wedi’u cyflwyno yn Arddangosyn 1. Mae Arddangosyn 2 yn asesiad cryno sy’n defnyddio statws goleuadau traffig i ddangos sut mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn cymharu â gweddill Cymru o safbwynt pob dangosydd, a sut mae’n cymharu â thargedau Llywodraeth Cymru, lle mae’r wybodaeth honno ar gael.

Arddangosyn 1: Negeseuon lefel uchel

Mae galw mawr a sawl agwedd aneffeithlon yn arwain at wasanaeth orthopedeg aneffeithlon, ac mae rhai canlyniadau yn llai cadarnhaol o gymharu â llefydd eraill yng Nghymru:

- er bod amrywiaeth dda o wasanaethau amgen yn bodoli, mae buddsoddiad mewn gofal sylfaenol yn isel ac yn lleihau. Mae atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn cynyddu ac wedi cyrraedd y lefel uchaf yng Nghymru, ac mae’n ymddangos bod adnoddau annigonol ar gael ar gyfer y Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS);
- mae gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau ffisiotherapi yn ateb y galw yn gyffredinol, er bod amseroedd aros am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriad gan feddygon teulu ymysg yr uchaf yng Nghymru, ac mae modd gwella effeithlonrwydd gwasanaethau orthopedeg i gleifion allanol a darparu gwasanaethau ffisiotherapi hunangyfeirio;
- mae angen gwella cyfraddau llawdriniaethau dydd, hyd arhosiad a defnydd capasiti theatrau;
- mae cleifion yn cael apwyntiadau dilynol, er bod rhai canlyniadau yn llai cadarnhaol na llefydd eraill yng Nghymru. Mae cyfradd marwolaethau cleifion orthopedeg dewisol yn uwch, ac mae’r gyfradd gwella yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd yn is.

Arddangosyn 2: Asesiad cryno

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol?** | | |
| Mwy o fuddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol cyhyrysgerbydol | Mae gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol ar gyfer problemau cyhyrysgerbydol wedi lleihau 1.9 y cant rhwng 2010 a 2013. |  |
| Cyfanswm y gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol | Mae gwariant cyfartalog ar ofal sylfaenol fesul pen o'r boblogaeth (£11.40) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. |  |
| Cyfran cyfanswm y gwariant cyhyrysgerbydol sy'n cael ei dyrannu i ofal sylfaenol | Mae cyfran cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol (9.7 y cant) yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ac mae wedi lleihau rhwng 2010 a 2013. |  |
| Amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu | Mae amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu yn cymharu'n dda â byrddau iechyd eraill. |  |
| Derbyn ymyriadau amgen cyn llawdriniaeth | Mae'r graddau y mae cleifion yn derbyn ymyriadau amgen cyn llawdriniaeth yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. |  |
| **A yw'r galw am wasanaethau gofal eilaidd yn cael ei reoli?** | | |
| Cyfradd atgyfeirio meddygon teulu | Cyfradd atgyfeirio meddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth yw'r uchaf ledled Cymru bellach. |  |
| Tuedd o ran atgyfeiriadau | Mae nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu ym maes orthopedeg yn cynyddu. |  |
| **A yw'r CMATS yn gweithredu'n effeithiol?** | | |
| CMATS ar waith | Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd CMATS yng Nghaerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen yn 2004. |  |

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Trefniadau gweithredol CMATS | Mae CMATS yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac eithrio ym meysydd lleoliad clinigau a gweithredu fel porth i'r holl atgyfeiriadau gan feddygon teulu. | |
| Lefelau staffio CMATS | Lefel y staff fesul 1,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu yw'r isaf yng Nghymru ac yn llai na thraean o gyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cleifion sy'n cael eu trin gan CMATS | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfran y cleifion sy'n cael eu trin gan CMATS. | - |
| Amseroedd aros ar gyfer asesu wyneb yn wyneb gan CMATS | Yr amser aros rhwng atgyfeiriad ac asesiad CMATs wyneb yn wyneb yw rhwng pythefnos a chwe wythnos. | |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau i gleifion allanol yn effeithiol?** | | |
| Amseroedd aros am apwyntiadau cleifion allanol cyntaf | Mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yn gyson. | |
| Sesiynau meddygon ymgynghorol i gleifion allanol | Nifer y sesiynau meddygon ymgynghorol i gleifion allanol fesul 1,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu yw'r isaf yng Nghymru. | Dangosydd disgrifiadol |
| Clinigau cleifion allanol a ganslwyd | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfran y clinigau cleifion allanol a ganslwyd. | - |
| Cymarebau apwyntiadau newydd i apwyntiadau dilynol | Mae'r gymhareb apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd (2.5) yn rhagori ar darged blaenorol Llywodraeth Cymru, a'r gymhareb hon yw'r uchaf yng Nghymru. | |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cyfraddau cleifion na fynychodd apwyntiadau | Mae cyfraddau cleifion na fynychodd apwyntiadau yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ond nid ydynt yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru. |  |
| Cleifion yn canslo apwyntiadau | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfradd y cleifion a ganslodd apwyntiadau. | - |
| Cydgysylltu ymweliadau | Mae deg y cant o gleifion yn teimlo nad yw'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cydgysylltu eu hymweliadau. Mae'r ganran hon yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. |  |
| Cost fesul presenoldeb claf allanol | Mae'r gost fesul presenoldeb claf orthopedeg allanol (£139.21) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, ond mae wedi lleihau 5.5 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. |  |
| **A yw gwasanaethau ffisiotherapi yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau ffisiotherapi | Mae canran y cleifion sy'n aros llai nag wyth wythnos (89.5 y cant) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, ac ychydig iawn o gleifion, os o gwbl, sy'n aros mwy nag 14 wythnos. |  |
| Lleoliadau amrywiol | Mae gwasanaethau ffisiotherapi yn cael eu darparu mewn lleoliadau cymunedol ac acíwt amrywiol, ond nid gofal sylfaenol. |  |
| Mynediad hwylus | Nid yw cleifion yn gallu eu hatgyfeirio eu hunain yn uniongyrchol i'r gwasanaeth ffisiotherapi eto. |  |
| Argaeledd gwasanaethau | Mae gwasanaethau ffisiotherapi i gleifion allanol yn parhau i gael eu darparu ar ffurf gwasanaeth pum diwrnod traddodiadol gan amlaf. |  |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau radioleg yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer profion radioleg o bob math | Mae amseroedd aros ar gyfer profion radioleg yn cynyddu, ac mae canran y cleifion sy’n cael eu hatgyfeirio gan feddygon teulu ac yn aros mwy nag wyth wythnos ymysg yr uchaf yng Nghymru. |  |
| Cyfraddau atgyfeirio MRI | Mae cyfradd yr atgyfeiriadau ar gyfer sganiau MRI gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. |  |
| Amseroedd aros am sganiau MRI | Mae canran y cleifion sy’n aros mwy nag wyth wythnos am sganiau MRI yn is o lawer na chyfartaledd Cymru gyfan. |  |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A oes tystiolaeth bod trefniadau yn ymwneud â thriniaethau llawfeddygol yn effeithiol?** | | |
| Trefniadau asesu cyn llawdriniaethau | Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaethau ar waith ond maent yn anghyson ledled y Bwrdd Iechyd. |  |
| Cael asesiad cyn llawdriniaeth | Cafodd pob claf asesiad cyn llawdriniaeth cyn cael ei dderbyn i’r ysbyty, ond cafodd un o bob tri chlaf yr asesiad llai na thair wythnos cyn y llawdriniaeth. |  |
| Triniaethau sy’n cael effaith glinigol gyfyngedig | Mae cyfradd y triniaethau sy’n cael effaith glinigol gyfyngedig yn isel mewn rhai ardaloedd, ond mae’r cyfraddau ym Mlaenau Gwent a Chaerffili yn debyg i gyfartaledd Cymru gyfan. |  |
| Cyfraddau cleifion allanol Cymdeithas Llawdriniaeth Ddydd Prydain | Mae canran y triniaethau orthopedeg a argymhellir sy’n cael eu cwblhau fel achosion cleifion allanol yn is na tharged Llywodraeth Cymru ym mhob ysbyty. |  |

| **Gwasanaethau i gleifion preswyl** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cyflwyno ‘ysgol ar y cyd’ | Nid yw’n glir a yw’r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ysgol ar y cyd[1]. | - |
| Amseroedd aros am lawdriniaethau | Mae canran y cleifion sy’n aros mwy na 26 wythnos i gael eu derbyn i’r ysbyty yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ond y canrannau misol yw’r uchaf ond un yng Nghymru. | |
| **A yw nifer y gwelyau’n cael ei ddefnyddio yn effeithiol?** | | |
| Derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth | Mae cyfran y cleifion sy’n cael eu derbyn ar ddiwrnod eu llawdriniaeth yn rhagori ar darged Llywodraeth Cymru mewn tri ysbyty. Mae llai na 29 y cant o gleifion yn cael eu derbyn i Ysbyty Brenhinol Gwent ar ddiwrnod eu llawdriniaeth, sy’n is o lawer na’r targed ac un o’r isaf yng Nghymru. | |
| Gostyngiad yn nifer y gwelyau i gleifion preswyl | Mae nifer y gwelyau sydd ar gael wedi cynyddu 2.3 y cant dros y tair blynedd diwethaf, ac ar gyfartaledd mae 190 o welyau ar gael bob dydd yn y pedwar ysbyty. | Dangosydd disgrifiadol |
| Defnyddio gwelyau | Mae cyfraddau defnyddio gwelyau wedi gostwng i 76 y cant yn 2013-14, sy’n is na’r lefel optimaidd o 85 y cant. Mae perfformiad yn amrywio ar safleoedd gwahanol. | |

[1] Mae ysgolion ar y cyd yn darparu sesiynau addysgol ar gyfer cleifion sy’n cael llawdriniaeth orthopedeg, gan gynnwys cyfle i gleifion ddysgu am ymarferion a thechnegau ffisiotherapi a fydd eu hangen arnynt ar ôl y llawdriniaeth.

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw capasiti theatrau llawdriniaeth yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol?** | | |
| Defnyddio theatrau | Mae perfformiad yn amrywio rhwng 69 ac 83 y cant yn y pedwar ysbyty, o gymharu â tharged 95 y cant Llywodraeth Cymru. | ● |
| Llawdriniaethau a ganslwyd | Mae cyfradd y llawdriniaethau sy’n cael eu canslo gan y Bwrdd Iechyd yn amrywio o 9.3 y cant yn Ysbyty Nevill Hall ac 16.9 y cant yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Nid oes cymhariaeth ar gael. | ● |
| **A yw hyd arhosiad cleifion mor fyr â phosibl?** | | |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer derbyniadau orthopedeg dewisol | Hyd arhosiad cyfartalog cleifion orthopedeg dewisol yw 4.2 diwrnod yn erbyn targed pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru, ond mae perfformiad yn amrywio mewn ysbytai gwahanol, gan gyrraedd y targed yn Ysbyty Gwynllyw ac Ysbyty Ystrad Fawr. | ● |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae’r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy’n cael cluniau a phengliniau newydd yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru yn Ysbyty Gwynllyw, ond nid yw’n cyrraedd y targed yn Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Brenhinol Gwent. | ● |
| Cost fesul cyfnod claf preswyl | Mae cost gyfartalog cyfnod gofal orthopedeg dewisol mewn ysbyty (£3,776) yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | ● |
| Cost brosthetig fesul cyfnod claf preswyl | Nid oes unrhyw ddata ar gael ar gyfer 2011-12, ond roedd cost brosthetig gyfartalog fesul cyfnod claf preswyl yn 2010-11 ymysg yr uchaf yng Nghymru. | ● |
| Cost fesul claf allanol | Mae cost claf allanol orthopedeg dewisol (£1,194) yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan. | ● |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cost fesul diwrnod gwely claf preswyl | Mae cost diwrnod gwely claf preswyl dewisol (£1,298) yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan. | |

| Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw cleifion yn cael apwyntiad dilynol?** | | |
| Apwyntiadau dilynol | Cafodd naw deg tri y cant o gleifion apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd. Mae'r ganran hon yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Trefnir apwyntiadau dilynol o fewn yr amserlenni a argymhellir | Cafodd 96.4 y cant o gleifion apwyntiad dilynol o fewn chwe wythnos a thri mis yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd. | |
| **A yw cymhlethdodau niweidiol yn cael eu hosgoi a'r manteision gorau posibl yn deillio o lawdriniaethau?** | | |
| Heintiau mewn Safleoedd Llawfeddygol (SSIs) | Mae'r gyfradd SSI yn dilyn llawdriniaeth i osod cluniau newydd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, ond mae cyfraddau ar gyfer llawdriniaeth i osod pengliniau newydd yn uwch, yn enwedig yn Ysbyty Nevill Hall. Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer SSI yw sero y cant. | |
| Cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae'r gyfradd aildderbyn cleifion yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod clun newydd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r gyfradd aildderbyn cleifion yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan. | |

| Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cyfradd marwolaethau ar gyfer cleifion orthopedeg dewisol | Mae'r gyfradd marwolaethau ar gyfer derbyniadau orthopedeg dewisol o fewn 30 diwrnod i ryddhau claf yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau | Mae'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau newydd yn amrywio mewn ardaloedd gwahanol, ac mae'r cyfraddau yn Nhorfaen a Chasnewydd ymysg yr isaf yng Nghymru. Mae'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau newydd yn Sir Fynwy yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Gwella symptomau | Dywedodd saith deg saith y cant o gleifion fod llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau yn rhannol neu'n sylweddol. Mae'r ganran hon yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, a'r isaf ond un yng Nghymru. | |


# Rhan 1

## 1 Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol

### Darpariaeth gofal sylfaenol

1.1 Dros y tair blynedd rhwng 2010 a 2013, mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau ei wariant gofal sylfaenol ar wasanaethau cyhyrysgerbydol 1.9 y cant (Arddangosyn 3). Roedd gwariant y Bwrdd Iechyd fesul pen o'r boblogaeth ar wasanaethau cyhyrysgerbydol gofal sylfaenol (£11.40) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 3). Mae lefel y gwariant hwn ymysg yr isaf yng Nghymru.

Arddangosyn 3: Gwariant cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol ar ofal sylfaenol rhwng 2010 a 2013




Ffynhonnell: StatsCymru

1.2 Mae cyfran yr arian cyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol gan y Bwrdd Iechyd wedi lleihau rhwng 2010-11 a 2012-13 (Arddangosyn 4). Mae'r perfformiad hwn wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yn gyson, ac yn 2012-13, y perfformiad hwn oedd yr isaf yng Nghymru. Byddai hyn yn awgrymu bod gwasanaethau cyhyrysgerbydol wedi canolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth gofal eilaidd o bosibl.

Arddangosyn 4: Cyfran cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol rhwng 2010-11 a 2012-13

| Bwrdd Iechyd | Canran cyllideb y rhaglen a wariwyd ar ofal sylfaenol | | |
|---|---|---|---|
| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 11.3 | 9.8 | 10.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 10.2 | 10.2 | 9.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 10.7 | 9.3 | 9.9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 11.9 | 10.6 | 12.0 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 16.0 | 15.1 | 15.4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 9.3 | 9.0 | 10.3 |
| Bwrdd Iechyd addysgu powys | 9.9 | 14.0 | 17.1 |
| **Cymru Gyfan** | **11.1** | **10.4** | **11.2** |

Ffynhonnell: StatsCymru

1.3 Fel rhan o'n gwaith, aethom ati i adolygu lefel y mynediad uniongyrchol sydd gan feddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol, a allai atal atgyfeiriad diangen i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau fel gwasanaethau poen cymunedol, rhaglenni hunanreoli, rhaglenni ffordd o fyw cymunedol, gwasanaethau ffisiotherapi cymunedol a gwasanaethau therapi ceiropractig. Nododd y Bwrdd Iechyd fod ganddo nifer o wasanaethau ar waith sy'n caniatáu mynediad uniongyrchol i feddygon teulu, sy'n cymharu'n ffafriol â byrddau eraill ledled Cymru (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 5: mynediad uniongyrchol meddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol

| | Abertawe Bro Morgannwg | Aneurin Bevan | Betsi Cadwaladr | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Hywel Dda | Powys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffisiotherapi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Amherthnasol | ✓ |
| Ffisiotherapyddion rôl estynedig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Amherthnasol | ✓ |
| Gwasanaeth poen cymunedol | ✓ | | | ✓ | ✓ | Amherthnasol | ✓ |
| Meddyg teulu â diddordeb arbennig mewn cyflyrau/cwynion orthopedeg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | Amherthnasol | |
| Gwasanaethau gwell sy'n berthnasol i gyflyrau/cwynion orthopedeg | | Yn rhannol | | | | Amherthnasol | |
| Mynediad gwell at ddiagnosteg | | ✓ | Yn rhannol | | | Amherthnasol | ✓ |
| Therapi ceiropractig | | | | | | Amherthnasol | |
| Rhaglenni ffordd o fyw/colli pwysau cymunedol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Amherthnasol | ✓ |
| Rhaglenni hunanreoli | ✓ | | | | | Amherthnasol | |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.4 Fel rhan o'n Harolwg o Gleifion sy'n cael Llawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd, gofynnwyd i gleifion a oeddent wedi derbyn amrywiaeth o ymyriadau amgen cyn cael y llawdriniaeth. Ac eithrio ymyriad i leddfu poen cyn llawdriniaeth, roedd cyfraddau ymyriadau eraill fel cyngor ar reoli pwysau yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 6).

Arddangosyn 6: Canran y cleifion a dderbyniodd ymyriad amgen cyn cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd


| | Aneurin Bevan | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a gafodd ymyriad lleddfu poen cyn y llawdriniaeth | 73.8 | 74.9 |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor neu driniaeth ffisiotherapi cyn y llawdriniaeth | 29.5 | 26.1 |
| Canran y cleifion a gafodd raglen ymarfer corff cyn y llawdriniaeth | 31.2 | 23.4 |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor ar reoli pwysau cyn y llawdriniaeth | 9.8 | 9.1 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu

1.5 Erbyn hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd y gyfradd uchaf o atgyfeiriadau gan feddygon teulu ym maes orthopedeg fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru, yn dilyn cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau rhwng 2012-13 a 2013-14 (Arddangosyn 7). Ac eithrio ardal Sir Fynwy, mae cyfran y trigolion 65 oed a throsodd yn nalgylch y Bwrdd Iechyd yn cyfateb i gyfartaledd Cymru. Nid yw'n ymddangos, felly, bod oedran y boblogaeth yn ffactor sy'n cyfrannu at y gyfradd atgyfeiriadau uchel. Byddai hyn yn awgrymu bod cyfradd yr atgyfeiriadau amhriodol yn uwch nag yng ngweddill Cymru, sydd i'w briodoli o bosibl i ddiffyg meini prawf atgyfeirio clir ac ymddygiad meddygon teulu. Gall diffyg gwasanaethau amgen fod yn ffactor perthnasol hefyd, ond fel y trafodwyd ym Mharagraff 1.3, mae amrywiaeth o wasanaethau amgen ar waith ac mae'n ymddangos bod cleifion yn defnyddio'r gwasanaethau hynny.


Arddangosyn 7: Atgyfeiriadau gan feddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-2014




Ffynhonnell: StatsCymru

1.6 Yn y gorffennol, roedd y Bwrdd Iechyd yn derbyn tua 1,500 o atgyfeiriadau bob mis. Fodd bynnag, ers mis Rhagfyr 2012 mae nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu ym maes orthopedeg wedi bod yn cynyddu'n raddol, nes cyrraedd 2,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu bob mis ym mis Mai 2014 (Arddangosyn 8).

Arddangosyn 8: Nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu a dderbyniwyd rhwng Ebrill 2012 a Mehefin 2014




Ffynhonnell: StatsCymru

## Gwasanaethau asesu a thriniaeth cyhyrysgerbydol cymunedol

1.7 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gysyniad CMATS yn 2012. Amcan CMATS oedd darparu man cyswllt cyntaf ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon teulu ar gyfer asesu a thrin poen a chyflyrau cyhyrysgerbydol er mwyn sicrhau atgyfeiriadau cywir i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd CMATS yn 2004. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau clir ar sut y dylai CMATS weithredu. Fodd bynnag, mae cydymffurfiaeth leol â rhai o egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru yn amrywio (Arddangosyn 9).


Arddangosyn 9: Cydymffurfiaeth ag egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru ar CMATS

| Egwyddor | Cydymffurfiaeth y bwrdd iechyd hwn | Nifer y byrddau iechyd ledled Cymru sy'n cydymffurfio |
|---|---|---|
| Clinigau sy'n cael eu cynnal mewn cyfuniad o ganolfannau lleol a gofal eilaidd | ✗<br>(Clinigau'n cael eu cynnal mewn adrannau ffisiotherapi lleol ac adrannau cleifion allanol cyffredinol ar bedwar safle) | Pob un ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| Bydd pob atgyfeiriad cyhyrysgerbydol (ac eithrio eithriadau penodol) yn mynd i'r CMATS | ✗<br>(Atgyfeiriadau ffisiotherapi a rhai atgyfeiriadau gan feddygon teulu) | Tri<br>(Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf) |
| Mae gan staff fynediad uniongyrchol at wasanaethau diagnosteg | ✓ | Pob un ac eithrio Bwrdd Iechyd addysgu powys |
| **Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:** | | |
| Ffisiotherapyddion ymarfer uwch | ✓ | Pob un |
| Podiatryddion ymarfer uwch | ✓ | Pob un ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Meddygon teulu â gwybodaeth, sgiliau a diddordeb ym maes cyhyrysgerbydol | ✓ | Pedwar<br>(Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.8 Lefelau staffio CMATS y Bwrdd Iechyd yw'r isaf yng Nghymru ac yn llai na thraean o'r cyfartaledd (Arddangosyn 10). Gall ailgyfeirio rhai cleifion drwy ffisiotherapi helpu i leihau'r llwyth gwaith ar y CMATS. Fodd bynnag, bydd y cynnydd graddol mewn atgyfeiriadau misol yn rhoi pwysau cynyddol ar staff cyfyngedig y gwasanaeth.

Arddangosyn 10: lefelau staffio CMATS




Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.9 Un o egwyddorion CMATS yw asesu, gwneud diagnosis a thrin cleifion y mae eu triniaeth yn berthnasol i arbenigwyr CMATS a lle y credir bod modd gweld a thrin y claf mewn dim mwy na dau ymweliad (‘asesiadau wyneb yn wyneb’). Dylai cleifion sydd angen triniaeth fwy dwys gael eu hatgyfeirio i wasanaethau mwy priodol wrth y pwynt cyfeirio. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, nid yw amseroedd aros i weld CMATS ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb yn cael eu cynnwys yn y llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Mae’r amser aros rhwng atgyfeiriad ac asesiad CMATS wyneb yn wyneb rhwng pythefnos a chwe wythnos, sydd o fewn targed wyth wythnos Llywodraeth Cymru.


# Rhan 2

# 2 Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig

## Gwasanaethau i gleifion allanol

2.1 Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o drin 95 y cant o gleifion o fewn 26 wythnos i'w hatgyfeirio, dylai byrddau iechyd fod yn gweithio ar sail targed mewnol o rhwng 12 a 14 wythnos ar gyfer apwyntiadau cyntaf cleifion allanol. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar sail targed mewnol o 16 wythnos ar gyfer apwyntiadau cyntaf, sy'n arwain at ragor o bwysau i sicrhau bod elfen ddiagnostig a chleifion mewnol y llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn cyrraedd y targed 26 wythnos ar gyfer amseroedd aros. Fodd bynnag, mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf yn y Bwrdd Iechyd (1.6 y cant ar gyfartaledd) wedi bod yn is na'r ganran ledled Cymru dros y ddwy flynedd diwethaf (Arddangosyn 11). Mae'r perfformiad hwn yn awgrymu bod digon o gapasiti i gleifion allanol i ateb y galw.

Arddangosyn 11: Canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf





Ffynhonnell: Uned Gyflenwi Llywodraeth Cymru

2.2 Mae’r gallu i fodloni gofynion cleifion allanol yn dibynnu ar lefelau staffio meddygol byrddau iechyd. O safbwynt capasiti meddygon ymgynghorol, mae hefyd yn bwysig ystyried a oes cydbwysedd priodol ym mhob cynllun swydd unigol rhwng sesiynau gofal clinigol uniongyrchol cleifion allanol a theatrau. Er gwaetha’r ffaith fod y sefyllfa o ran amseroedd aros yn dangos bod digon o gapasiti yn yr adran gleifion allanol i ateb y galw, nifer y meddygon ymgynghorol fesul 1,000 o atgyfeiriadau a nifer y sesiynau meddygon ymgynghorol sy’n cael eu neilltuo i weithgarwch cleifion allanol yw’r isaf yng Nghymru (Arddangosyn 12).

2.3 Mae’r ddau ddangosydd hwn yn awgrymu nad oes digon o gapasiti meddygon ymgynghorol i fodloni’r galw presennol o safbwynt cleifion allanol. Fodd bynnag, mae’n ymddangos bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd gwell o staff anfeddygol i gynnal clinigau i gleifion allanol, gan mai’r Bwrdd hwn yw’r unig un sy’n nodi achosion o bresenoldeb cleifion allanol nad ydynt o dan arweiniad meddygol ym maes orthopedeg. Mae rhagdybiaeth gynllunio’r Bwrdd Iechyd ar gyfer hyd apwyntiad claf allanol newydd (10 munud fesul apwyntiad) hefyd yn fyrrach na hyd apwyntiadau pob un o’r byrddau iechyd eraill yng Nghymru (20 munud fesul apwyntiad). Byddai hyn yn cynyddu llif cleifion, ond gall fod yn niweidiol i ansawdd sesiwn yr ymgynghoriad.

Arddangosyn 12: Staffio meddygon ymgynghorol a sesiynau cleifion allanol fesul 1,000 o atgyfeiriadau ar gyfer 2013-14




Ffynhonnell: StatsCymru ac Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

2.4 Ar ôl cynllunio sesiynau i gleifion allanol, mae'n bwysig peidio â'u canslo wedyn gan fod rheidrwydd o hyd i fyrddau iechyd drin y cleifion hynny o fewn 26 wythnos. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfradd y clinigau i gleifion allanol a ganslwyd yn 2012-13. Mae llawer o fyrddau iechyd yn methu adrodd y data hwn, felly nid oes unrhyw gymhariaeth ar gael.


2.5 Mae clinigau'n cynnwys amrywiaeth o apwyntiadau newydd a dilynol ar sail galw am y gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd angen apwyntiad dilynol ar rai cleifion cyn y gall gweithwyr proffesiynol wneud penderfyniad clinigol, ond i gleifion eraill, mae un apwyntiad claf allanol yn ddigon. Yn ogystal, nid oes angen i rai cleifion sydd angen apwyntiadau dilynol gael eu gweld gan feddyg neu mewn ysbyty o reidrwydd. Felly, dim ond os oes angen i gleifion ddychwelyd y dylid gofyn iddynt wneud hynny, gan sicrhau eu bod yn mynd i'r lleoliad priodol. Bydd hyn yn helpu i osgoi apwyntiadau dilynol diangen, a all ddisodli cleifion sydd angen apwyntiadau cyntaf ar frys.

2.6 Ar gyfer y cyfnod 2011-12, y gymhareb apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd yn y Bwrdd Iechyd (2.5) oedd yr uchaf yng Nghymru. Roedd hyn yn fwy na tharged blaenorol 1.9 Llywodraeth Cymru, a gallai ddangos bod llawer o apwyntiadau dilynol yn amhriodol.

2.7 Gall newidiadau mewn darpariaeth gwasanaethau i gleifion allanol helpu i leihau sawl gwaith y mae'n rhaid i gleifion fynd i'r ysbyty. Gallai hyn gynnwys clinigau poeth, neu glinigau rhithwir, sy'n defnyddio technoleg fodern i gynnal ymgynghoriadau meddygol i gleifion. Yn ein harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, roedd 10 y cant o gleifion yn teimlo nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ceisio cydgysylltu nifer eu hymweliadau. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd 12 y cant Cymru gyfan.

2.8 Gall cyfradd y cleifion na fynychodd apwyntiadau a'r gyfradd a ganslodd apwyntiadau ddangos a yw apwyntiadau yn briodol. Mae cyfradd y cleifion allanol na fynychodd apwyntiadau newydd (6.6 y cant) ac apwyntiadau dilynol (9.5 y cant) yn y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Fodd bynnag, nid yw'r perfformiad hwn yn cyrraedd targed pump y cant Llywodraeth Cymru ar gyfer apwyntiadau newydd a'r targed saith y cant ar gyfer apwyntiadau dilynol, sy'n dangos bod modd gwella effeithlonrwydd yn y system (Arddangosyn 13). Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau'r apwyntiadau newydd a dilynol i gleifion allanol a ganslwyd gan gleifion. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo apwyntiadau, felly nid oes cymhariaeth ar gael.


Arddangosyn 13: Cyfraddau cleifion allanol na fynychodd apwyntiadau newydd ac apwyntiadau dilynol 2011-12




Ffynhonnell: StatsCymru

2.9 Drwy ddefnyddio gwybodaeth ariannol a gyflwynir gan y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, nodwyd bod cost derbyniadau cleifion allanol orthopedeg yn y Bwrdd Iechyd (£139.21) yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2011-12 (Arddangosyn 14), er ei bod wedi lleihau 5.5 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bydd lefel y gweithgarwch yn yr adrannau cleifion allanol yn effeithio ar gost derbyn cleifion allanol, ynghyd â chyfran y derbyniadau dilynol i dderbyniadau newydd, er y bydd costau eraill sy'n gysylltiedig â staff yn ffactorau pwysig hefyd.

Arddangosyn14: Cost derbyn cleifion orthopedeg allanol yn 2010-11 a 2011-12





Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

## Gwasanaethau ffisiotherapi

2.10 Yn gyffredinol, mae cleifion sydd angen ffisiotherapi i drin problemau cyhyrysgerbydol yn cael eu gweld yn gynt yn y Bwrdd Iechyd na mewn rhannau eraill o Gymru. Roedd cyfartaledd o tua 90 y cant o gleifion yn aros llai nag wyth wythnos o gymharu ag 85 y cant yng Nghymru gyfan rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014 (Arddangosyn 15).

2.11 Yn ôl targed Llywodraeth Cymru, ni ddylai unrhyw glaf aros mwy nag 14 wythnos ar gyfer gwasanaethau therapi. Ac eithrio cyfnod byr yn 2012, ychydig iawn o gleifion sydd wedi aros mwy nag 14 wythnos yn y Bwrdd Iechyd o gymharu â Chymru gyfan (Arddangosyn 15) sy'n berfformiad da. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y Bwrdd Iechyd yn amrywio, ac mae cleifion yn aros yn hirach am driniaeth yn Ysbyty Brenhinol Gwent fel arfer.

Arddangosyn 15: Amseroedd aros ar gyfer ffisiotherapi (oedolion)





Ffynhonnell: StatsCymru

2.12 Mae gwasanaethau ffisiotherapi ar gyfer cleifion allanol yn cael eu darparu mewn amrywiaeth eang o leoliadau ledled y Bwrdd Iechyd, ond yn wahanol i fyrddau iechyd eraill ledled Cymru, nid oes unrhyw ddarpariaeth ffisiotherapi mewn meddygfeydd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno proses hunangyfeirio eto, ac mae'n rhaid i gleifion sydd angen triniaeth ffisiotherapi gael eu hatgyfeirio i'r adran gan weithiwr iechyd proffesiynol. Mae byrddau iechyd eraill wedi cyflwyno proses hunangyfeirio, sy'n rhoi cyfle i gleifion gysylltu â'r adran am gyngor cyn gwneud atgyfeiriad, neu gael eu hatgyfeirio i wasanaethau eraill mwy priodol. Fel sy'n wir am weddill Cymru, mae gwasanaethau ffisiotherapi yn parhau i gael eu darparu fel gwasanaeth pum diwrnod traddodiadol yn ystod yr wythnos waith.

## Gwasanaethau radioleg

2.13 Bydd angen i gleifion â phroblemau cyhyrysgerbydol gael profion radiolegol gan amlaf. Roedd mynediad at brofion radioleg o bob math yn dilyn cais gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn y Bwrdd Iechyd hwn yn well na chyfartaledd Cymru gyfan yn gyson hyd at 2012 (Arddangosyn 16). Ers hynny, mae perfformiad wedi dirywio, yn enwedig o safbwynt atgyfeiriadau gan feddygon teulu i'r gwasanaeth radioleg (Arddangosyn 16). Ers 2012, mae canran y cleifion a atgyfeiriwyd gan feddygon teulu sy'n aros mwy nag wyth wythnos am brofion radiolegol wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn gyson, ac mae'r perfformiad ers mis Awst 2013 yn un o'r uchaf yng Nghymru.

Arddangosyn 16: Canran y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am brofion radioleg




Ffynhonnell: StatsCymru

2.14 Ledled Cymru yn 2013-14, roedd 23 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddyg teulu a 39 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol yn geisiadau am sganiau MRI. Mae cyfraddau'r atgyfeiriadau MRI yn y Bwrdd Iechyd yn sylweddol is, sef 12 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon teulu a 32 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol. Fodd bynnag, mae'r patrwm atgyfeirio hwn yn amrywio rhwng y pedwar ysbyty (Arddangosyn 17).


Arddangosyn 17: Cyfran y ceisiadau radioleg am sganiau MRI

| Safle ysbyty | Cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu am sganiau MRI | Cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol am sganiau MRI |
|---|---|---|
| Cymunedol | 7 | 22 |
| Nevill Hall | 31 | 33 |
| Ysbyty Brenhinol Gwent | 31 | 37 |
| Ysbyty Ystrad Fawr | 35 | 52 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **23** | **39** |

Ffynhonnell: StatsCymru

2.15 Gall y cynnydd yn y galw, yn enwedig am sganiau MRI yn dilyn atgyfeiriad gan feddygon teulu, roi pwysau ar adrannau radioleg byrddau iechyd. Roedd amseroedd aros am sganiau MRI yn parhau i fod yn ffafriol yn y Bwrdd Iechyd hyd at ddiwedd 2013. Fodd bynnag, ers mis Hydref 2013, mae canran y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos wedi dechrau cynyddu. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn parhau i fod yn fwy ffafriol na sefyllfa Cymru gyfan (Arddangosyn 18).

Arddangosyn 18: Canran y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am sgan MRI




Ffynhonnell: StatsCymru

# Rhan 3

## 3 Gwasanaethau i gleifion preswyl

### Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty

3.1 Ar ôl i'r clinigydd benderfynu mai ymyriad llawfeddygol yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â phroblemau cyhyrysgerbydol, dylai byrddau iechyd gynnwys enw'r claf ar y rhestr a threfnu dyddiad ar gyfer asesiad cyn y llawdriniaeth i sicrhau bod y claf yn iach yn glinigol. Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaeth ar waith ledled y Bwrdd Iechyd, er bod darpariaeth y gwasanaethau hyn yn amrywio ychydig o ardal i ardal (Arddangosyn 19).

Arddangosyn 19: Trefniadau asesu cyn llawdriniaeth

| | De | Gogledd |
|---|---|---|
| Adran bwrpasol | ✓ | × |
| Dan arweiniad nyrs | Yn rhannol | Yn rhannol |
| Ar gael pum diwrnod yr wythnos | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth orthopedeg penodol | ✓ | ✓ |
| Cydgysylltu trefnu apwyntiadau | Staff amserlennu penodedig | Ysgrifenyddesau meddygol |


Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

3.2 Yn ôl ein harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, roedd pob un o'r cleifion wedi cael asesiad cyn y llawdriniaeth. Cafodd un o bob tri o'r cleifion hyn asesiad llai na thair wythnos cyn y llawdriniaeth. Dylid rhoi rhybudd digonol cyn cwblhau asesiadau cyn llawdriniaeth er mwyn lleihau nifer y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo yn annisgwyl os oes angen ymyriad arall ar glaf cyn y llawdriniaeth.

3.3 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae'n bwysig ystyried manteision y llawdriniaeth ac osgoi rhoi triniaethau sydd ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn ôl y gwaith ymchwil[2]. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, nodwyd bod cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn isel yn y rhan fwyaf o ardaloedd y Bwrdd Iechyd, ac roedd y cyfraddau ar gyfer trigolion Blaenau Gwent a Chaerffili yn debyg i gyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 20).

[2] Mae'r triniaethau a adolygwyd yn cynnwys datgywasgu ar y meingefn, torri disg rhyngfertebrol, uno cymal arall y meingefn, dileu nam ar y meingefn, biopsi o'r meingefn, dadnerfogi cymal ffased meingefn fertebra ac archwilio'r meingefn.


Arddangosyn 20: Cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.4 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae hefyd yn bwysig ystyried y posibilrwydd o'i drin fel claf allanol er mwyn osgoi ei gadw yn yr ysbyty yn ddiangen. Mae'r BADS wedi argymell nifer o driniaethau orthopedeg sy'n addas ar gyfer cleifion allanol. Yn y gorffennol roedd y rhain yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru, gyda tharged o 80 y cant. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13, roedd canran y triniaethau orthopedeg a argymhellir a gwblhawyd ar gyfer cleifion allanol yn ysbytai'r Bwrdd Iechyd yn is na tharged Llywodraeth Cymru, er bod perfformiad Ysbyty Gwynllyw (73 y cant) yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd perfformiad yn Ysbyty Nevill Hall yn sylweddol is, gyda 56 y cant o driniaethau sy'n cael eu hargymell gan BADS yn cael eu cwblhau fel triniaethau i gleifion allanol (Arddangosyn 21).

Arddangosyn 21 Canran y triniaethau orthopedeg a argymhellwyd gan BADS a gwblhawyd ar gyfer cleifion allanol 2012-13





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

Noder: Mae cyfleusterau ysbytai preifat a gwblhaodd waith ar ran y GIG wedi eu cynnwys.

3.5 Er mwyn sicrhau bod y canlyniad gorau posibl i gleifion yn deillio o ymyriad llawfeddygol, mae byrddau iechyd wedi mabwysiadu'r rhaglen Adferiad Gwell Ar ôl Llawdriniaeth. Mae hyn yn cynnwys sefydlu 'ysgol ar y cyd' i ddarparu sesiynau addysgol ar gyfer cleifion sydd ar fin cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd, gan gynnwys cyfle i gleifion ymarfer ymarferion a thechnegau ffisiotherapi a fydd yn eu helpu i wella yn gynt ar ôl y llawdriniaeth. Cynhelir yr 'ysgol ar y cyd' cyn derbyn claf i ysbyty, ac mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod egwyddor yr 'ysgol ar y cyd' yn helpu'r claf i wella yn gynt ar ôl llawdriniaeth a'i helpu i aros yn yr ysbyty am lai o amser. Nid yw'n glir a yw'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi egwyddor yr 'ysgol ar y cyd' ar waith gan na ddarparwyd unrhyw wybodaeth i ni.

3.6 Roedd canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol yn y Bwrdd Iechyd yn debyg i gyfartaledd Cymru gyfan hyd at ganol 2013 (Arddangosyn 22). Ers hynny, mae cyfran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos wedi bod rhwng 20 y cant a 30 y cant, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru wedi codi i 35 y cant. Fodd bynnag, mae'r ganran hon yn uwch na llawer o fyrddau iechyd eraill ledled Cymru. Bydd amseroedd aros y targedau mewnol ar gyfer apwyntiadau i gleifion allanol, a'r cyfnod hirach yn aros am brofion diagnosteg, yn effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i drin y rhai sydd angen eu derbyn i'r ysbyty o fewn 26 wythnos.

Arddangosyn 22: Canran y cleifion yn aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2014





Ffynhonnell: Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru

## Derbyniadau

3.7 Er mwyn osgoi unrhyw gyfnodau aros dros nos diangen yn yr ysbyty a manteisio'n llawn ar nifer y gwelyau sydd ar gael, mae'n arfer da derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth. Mae perfformiad yn amrywio yn y Bwrdd Iechyd, gyda thri ysbyty yn rhagori ar darged 64 y cant Llywodraeth Cymru ar gyfer y dangosydd hwn (Arddangosyn 23). Mae llai na 29 y cant o gleifion Ysbyty Brenhinol Gwent yn cael eu derbyn ar ddiwrnod eu llawdriniaeth, sy'n is o lawer na tharged Llywodraeth Cymru ac un o'r isaf yng Nghymru.

Arddangosyn 23: Canran y cleifion orthopedeg dewisol a dderbyniwyd ar ddiwrnod eu llawdriniaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.8 Mae gan y Bwrdd Iechyd wardiau pwrpasol ar gyfer gweithgarwch orthopedeg dewisol. Mae nifer y gwelyau trawma ac orthopedeg sydd ar gael wedi cynyddu 3.8 y cant dros y pedair blynedd diwethaf, ac roedd 192.7 o welyau ar gael bob dydd ar gyfartaledd yn y Bwrdd Iechyd yn 2013-14. Mae cyfradd defnyddio'r gwelyau hyn wedi amrywio rhwng 77 y cant yn 2010-11 i 76.3 y cant yn 2013-14. Mae hyn yn cymharu â chyfradd defnyddio gwelyau optimaidd 85 y cant. Mae hyn yn dangos bod cyfleoedd ar gael i gynyddu llif cleifion neu leihau faint o welyau sydd ar gael. Mae'r sefyllfa yn amrywio mewn ysbytai gwahanol, ac mae gan yr unedau mwy gyfraddau defnyddio gwelyau uwch. Mae cyfraddau defnyddio gwelyau yn amrywio o 20 y cant yn Ysbyty Ystrad Fawr i 89 y cant yn Ysbyty Brenhinol Gwent (Arddangosyn 24).

Arddangosyn 24: Nifer y gwelyau sydd ar gael a chyfraddau defnyddio gwelyau 2013-14

| | Gwelyau sydd ar gael | Cyfradd defnyddio gwelyau (%) |
|---|---|---|
| Ysbyty Nevill Hall | 75.2 | 76.1 |
| Ysbyty Brenhinol Gwent | 87.6 | 88.7 |
| Ysbyty Ystrad Fawr | 5.8 | 19.7 |

Ffynhonnell: StatsCymru

## Aros yn yr ysbyty

3.9 Mae theatrau llawdriniaeth yn rhan bwysig o arhosiad claf orthopedeg dewisol mewn ysbyty, a gall oedi neu ganslo llawdriniaeth arwain at brofiad gwael i gleifion a defnydd aneffeithlon o adnoddau. Gall canslo llawdriniaeth ar ddiwrnod y llawdriniaeth hefyd arwain at danddefnyddio capasiti theatrau. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth gynhwysfawr am ei ddefnydd o theatrau orthopedeg ar gyfer cleifion allanol a chleifion preswyl. Roedd y defnydd o theatrau dros gyfnod tri mis rhwng Ionawr 2013 a Mawrth 2013 yn amrywio rhwng 45 a 79 y cant o'r capasiti a oedd ar gael ar gyfer cleifion allanol yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall. Mae'r defnydd o theatrau ar gyfer cleifion mewnol yn amrywio rhwng 69 a 94 y cant yn ysbytai Brenhinol Gwent, Nevill Hall, Gwynllyw ac Ystrad Fawr (Arddangosyn 25). Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio theatrau yw 95 y cant. Ni wnaeth pob bwrdd iechyd roi gwybodaeth i ni am eu perfformiad o safbwynt defnyddio theatrau, felly nid oes unrhyw gymhariaeth ar gael.

Arddangosyn 25: Defnyddio theatrau

| | Ionawr 2013 | Chwefror 2013 | Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| Ysbyty Nevill Hall – Uned Llawdriniaethau Dydd | 64% | 70% | 79% |
| Ysbyty Nevill Hall – Prif Theatrau | 72% | 82% | 83% |
| Ysbyty Brenhinol Gwent – Uned Llawdriniaethau Dydd | 45% | 59% | 66% |
| Ysbyty Brenhinol Gwent – Prif Theatrau | 74% | 83% | 82% |
| Ysbyty Gwynllyw | 94% | 93% | 84% |
| Ysbyty Ystrad Fawr | 72% | 69% | 80% |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru


3.10 Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfradd y sesiynau theatr a ganslwyd yn 2012-13. Fodd bynnag, ar gyfer y sesiynau a gynhaliwyd, roedd cyfradd y llawdriniaethau a ganslwyd gan y Bwrdd Iechyd ar ddiwrnod y llawdriniaeth yn ystod y cyfnod hwn yn amrywio o 9.3 y cant yn Ysbyty Nevill Hall i 16.9 y cant yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Targed blaenorol Llywodraeth Cymru ar gyfer llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar ddiwrnod y llawdriniaeth oedd dau y cant. Er nad yw cyfradd y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn gyfyngedig i lawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar y diwrnod, mae angen archwilio'r cyfraddau uwch i ddeall pam y mae apwyntiadau yn cael eu canslo. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo llawdriniaethau, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth.

## Rhyddhau cleifion

3.11 Hyd arhosiad cyfartalog claf orthopedeg dewisol yn y Bwrdd Iechyd yw 4.2 diwrnod, sy'n uwch na tharged pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru. Mae'r perfformiad yn amrywio ym mhedwar ysbyty'r Bwrdd Iechyd. Yr hyd arhosiad cyfartalog byrraf yw 1.3 diwrnod yn Ysbyty Ystrad Fawr, a'r hyd arhosiad cyfartalog yn Ysbyty Gwynllyw yw 3.6 diwrnod. Nid yw hyd arhosiad cyfartalog Ysbyty Nevill Hall (4.6 diwrnod) nac Ysbyty Brenhinol Gwent (5.5 diwrnod) yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru.

3.12 Nid yw'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod clun a phen-glin newydd yn Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Brenhinol Gwent yn cydymffurfio â thargedau Llywodraeth Cymru a bennwyd ar gyfer y triniaethau hyn (Arddangosyn 26). Yr hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod clun newydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent (9.5 diwrnod) yw'r hiraf yng Nghymru. Mae'r hyd arhosiad cyfartalog yn dilyn y triniaethau hyn yn Ysbyty Gwynllyw yn cydymffurfio â thargedau Llywodraeth Cymru.

Arddangosyn 26: Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaethau dewisol i osod clun a phen-glin newydd rhwng Ebrill 2012 a Hydref 2013





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.13 Cost gyfartalog derbyn claf orthopedeg dewisol i'r ysbyty yn y Bwrdd Iechyd yn 2012-13 oedd £3,776, a oedd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (£4,239), a'r isaf yng Nghymru. Bydd hyd arhosiad yn dylanwadu ar gost derbyn claf i'r ysbyty, ond bydd costau eraill sy'n gysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig hefyd. O ystyried bod hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer cleifion orthopedeg dewisol yn y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, mae costau is sy'n gysylltiedig ag agweddau ar staffio, cyfarpar neu gyffuriau yn debygol o effeithio ar y gost gyfartalog is.

3.14 Un ffactor sy'n dylanwadu ar gost triniaeth yw'r gost sy'n gysylltiedig â phrosthesisau. Roedd cost prosthesisau fesul derbyniad yn y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2010-11, a'r uchaf ond un yng Nghymru. Ni wnaeth cyflwyniad cyllid 2011-12 y Bwrdd Iechyd wahanu costau prosthetig (Arddangosyn 27).


Arddangosyn 27: Cost prosthetig gyfartalog fesul derbyniad yn 2010-11 a 2011-12




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

3.15 Yn 2012-13, roedd costau diwrnod gwely claf preswyl dewisol yn £1,298, a chostau claf allanol orthopedeg yn £1,194. Mae'r ffigurau hyn yn cyfateb i ffigurau cyfartalog Cymru gyfan (Arddangosyn 28). Pe bai perfformiad yn erbyn y triniaethau orthopedeg BADS yn Ysbyty Nevill Hall yn gwella i'r lefel 80 y cant a argymhellir, gallai'r gwahaniaeth rhwng cost claf allanol a chost diwrnod gwely claf preswyl ryddhau tua £34,000 y flwyddyn. Yn ogystal, pe bai'r hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer triniaethau orthopedeg dewisol yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn gostwng i darged pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru, gallai ryddhau adnoddau gwerth tua £2.7 miliwn, neu ryddhau capasiti i gynyddu llif cleifion.

Arddangosyn 28: Cost gyfartalog fesul claf allanol orthopedeg dewisol a diwrnod gwely claf preswyl 2012-13




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru


# Rhan 4

## 4 Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau

### Trefniadau dilynol

4.1 Ar ôl cael eu rhyddhau o’r ysbyty, dylai cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd gael apwyntiad dilynol rhwng chwe wythnos a thri mis. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd adrodd ar faint o gleifion a oedd wedi cael apwyntiad dilynol o fewn yr amserlen benodedig. Fodd bynnag, dangosodd ein harolwg o gleifion fod 93 y cant o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi cael apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau (Arddangosyn 29), sy’n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd 96 y cant o’r rhain wedi cael yr apwyntiad dilynol o fewn yr amserlenni penodedig.

Arddangosyn 29: Canran y cleifion yn yr arolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd a gafodd apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o’r ysbyty




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Canlyniadau a phrofiad cleifion

4.2 I lawer o gleifion, gall llawdriniaeth fod yn brofiad cadarnhaol sy'n newid eu bywydau ac yn gwella eu hansawdd bywyd yn sylweddol, ond gall pethau fynd o chwith ambell waith Fel rhan o'n gwaith aethom ati i adolygu amrywiaeth o ddangosyddion i ddeall i ba raddau y mae'r profiadau hyn yn niweidiol i gleifion yn y tymor byr a'r hirdymor.

4.3 Os yw claf yn dal haint mewn safle llawfeddygol mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo aros yn hirach yn yr ysbyty. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, aethom ati i adolygu cyfradd yr heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd. Mae cyfraddau heintiau mewn safleoedd llawfeddygol yn dilyn llawdriniaeth i osod cluniau newydd yn is yn y Bwrdd Iechyd na chyfartaledd Cymru gyfan, ond mae'r cyfraddau yn dilyn llawdriniaeth i osod pengliniau newydd yn uwch, yn enwedig yn Ysbyty Nevill Hall (Arddangosyn 30). Targed Llywodraeth Cymru yw sero y cant.

Arddangosyn 30: Cyfraddau heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer arthrosgopi cluniau a phengliniau 2012-13

| | Cyfraddau heintiau mewn safleoedd llawfeddygol (cluniau) | Cyfraddau heintiau mewn safleoedd llawfeddygol (pengliniau) |
|---|---|---|
| Ysbyty Nevill Hall | 0.4 | 3.2 |
| Ysbyty Brenhinol Gwent | 1.2 | 1.9 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **1.5** | **1.8** |

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

4.4 Ar gyfer yr un cyfnod, nodwyd hefyd bod cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod cluniau a phengliniau newydd yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae'r gyfradd marwolaethau ar gyfer cleifion orthopedeg yn yr ysbyty a hyd at 30 diwrnod ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (Arddangosyn 31). Y cyfraddau hyn yw'r uchaf ond un yng Nghymru.


Arddangosyn 31: Cyfraddau aildderbyn cleifion a chyfraddau marwolaeth ym maes llawdriniaeth orthopedeg ddewisol

| Dangosydd | Aneurin Bevan | Cyfartaledd Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod clun newydd | 0.8 | 0.9 |
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd | 0.1 | 0.1 |
| Marwolaethau yn yr ysbyty fesul 100 o dderbyniadau orthopedeg dewisol | 0.10 | 0.06 |
| Marwolaethau o fewn 30 diwrnod o ryddhau cleifion orthopedeg dewisol, fesul 100 o dderbyniadau orthopedeg dewisol | 0.14 | 0.10 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.5 Mae oes clun neu ben-glin artiffisial yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau, ond maen nhw’n gallu para dros 20 mlynedd ar gyfartaledd. Fodd bynnag, wrth i oedran cyfartalog y boblogaeth gynyddu, mae’r tebygolrwydd o roi llawdriniaeth i ail-wneud y cymal newydd yn cynyddu hefyd. Fodd bynnag, gall ail-wneud llawdriniaethau ddangos nad oedd y llawdriniaeth wreiddiol i osod cymal newydd yn effeithiol. Mae’r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau newydd yn amrywio yn ardaloedd y Bwrdd Iechyd, ac mae’r cyfraddau ar gyfer trigolion Casnewydd a Thorfaen ymysg yr isaf yng Nghymru. Y cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau newydd ar gyfer trigolion Sir Fynwy yw’r uchaf (1.2 y cant) (Arddangosyn 32).


Arddangosyn 32: Cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau fesul 10,000 o'r boblogaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.6 Fel rhan o'n harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, gofynnwyd i gleifion a oedd eu llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau. Sylwodd saith deg saith y cant o gleifion ar welliant. Roedd y ganran hon ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (80 y cant). Nododd pedwar deg pedwar y cant o gleifion y Bwrdd Iechyd fod llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau yn sylweddol, a dywedodd 33 y cant arall fod llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau yn rhannol (Arddangosyn 33). Fodd bynnag, mae sylwadau cleifion mewn ysbytai gwahanol yn amrywio, ac roedd 82 y cant o gleifion yn Ysbyty Gwynllyw wedi nodi gwelliannau o gymharu â 72 y cant yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall.

Arddangosyn 33: Canran y cleifion a ddywedodd fod eu llawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi gwella eu symptomau'n rhannol neu'n sylweddol




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

4.7 Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi ei fod yn monitro canlyniadau cleifion sy'n cael triniaeth orthopedeg drwy gyfarfodydd archwilio a llywodraethu clinigol, a thrwy gyflwyno data i Gofrestrfa Genedlaethol y Cymalau. Mae byrddau iechyd eraill yn defnyddio sgoriau Cluniau a Phengliniau Rhydychen i asesu canlyniadau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cofnodi canlyniadau ar gyfer llawdriniaeth ar yr ysgwydd, ac mae'n bwriadu ymestyn hyn i is-arbenigeddau orthopedeg eraill.

4.8 Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi cynnal arolygon boddhad cleifion dros y 12 mis diwethaf er mwyn casglu safbwyntiau cleifion orthopedeg. Yn 2012-13, cofnododd y Bwrdd Iechyd 136 o gwynion yn ymwneud â gwasanaethau orthopedeg, sef 1.9 y cant o'r holl dderbyniadau orthopedeg dewisol. Mae llawer o fyrddau iechyd yn methu adrodd ar nifer y cwynion sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau orthopedeg, felly nid oes modd gwneud cymhariaeth.

# Atodiad 1

## Ffynonellau data

Mae'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i lywio'r arolwg gorfodol o wasanaethau orthopedeg yn cynnwys:

- Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru a ofynnodd am ddata amrywiol yn ymwneud ag:
  - Atgyfeiriadau gan feddygon teulu
  - CMATS
  - Cleifion allanol orthopedeg
  - Gwasanaethau therapi
  - Gwasanaethau radioleg
  - Asesiad cyn y llawdriniaeth
  - Gwelyau orthopedeg
  - Theatrau llawdriniaeth
  - Staffio meddygol
  - Profiad cleifion
  - Gwybodaeth ariannol
- Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru
- Stats Cymru (www.statscymru.cymru.gov.uk)
- Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd
- Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd
- Ffurflenni costau Cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru